

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit

Hydref 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddNHAMG](https://twitter.com/SeneddNHAMG)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit

Hydref 2019

Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mike Hedges AC
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Andrew RT Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru



Joyce Watson AC
Llafur Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn



John Griffiths AC
Llafur Cymru



Dai Lloyd AC
Plaid Cymru

Cynnwys

Trosolwg	5
Argymhellion	6
Rhagair y Cadeirydd	10
1. Cyflwyniad	11
Ein hadroddiad cyntaf.	11
Cylch gorchwyl.....	12
Y dull gweithredu	13
2. Datblygiadau allweddol ers ein hadroddiad cyntaf	14
2. 1. Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) drafft Llywodraeth y DU	14
2. 2. Cynigion ymgynghori Llywodraeth Cymru	15
2. 3. Datblygiadau diweddaraf Llywodraeth Cymru	15
2. 4. Goblygiadau'r berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol.....	16
3. Egwyddorion amgylcheddol	17
3. 1. Ymgorffori egwyddorion yr UE.....	17
3. 2. Cymhwyso'r egwyddorion.....	20
3. 3. Egwyddorion eraill	21
3. 4. Egwyddorion amgylcheddol ledled y DU	23
Ein barn	23
4. Trefniadau llywodraethu amgylcheddol	26
4. 1. Corff sy'n gweithredu ledled y DU.....	27
4. 2. Rôl cyrff atebolrwydd presennol yn y strwythur llywodraethu newydd	27
4. 3. Cwmpas y corff newydd.....	29
4. 4. Cyfansoddiad corff newydd.....	30
4. 5. Osgoi swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd.....	31
4. 6. Monitro ac adrodd.....	32
4. 7. Gorfodaeth.....	34
4. 8. Cwynion	36

4. 9. Rôl gynghori.....	38
Ein barn	39
5. Trefniadau pontio.....	46
Ein barn	47
Atodiad: Tystiolaeth lafar	49

Trosolwg

Dyma ail adroddiad y Pwyllgor lle rydym yn ystyried effaith ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ar egwyddorion amgylcheddol a strwythurau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y casgliadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad cyntaf, *Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit*, Mehefin 2018, gan ystyried cynigion sydd wedi dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ers hynny.

Rhwng adeg cymryd tystiolaeth i oleuo ein gwaith ac ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae datblygiadau arwyddoccol wedi digwydd yn San Steffan mewn perthynas ag ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r rhain yn cynnwys addoedi Senedd y DU a phasio deddfwriaeth sydd wedi'i bwriadu i atal Brexit "heb gytundeb". Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn ar adeg o ansicrwydd digynsail ynghylch ymadawiad y DU â'r UE, a bydd rhaid aros i weld beth fydd canlyniad y datblygiadau hyn. Mae ein casgliadau a'n hargymhellion yn adlewyrchu'r amgylchiadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Bil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r egwyddorion amgylcheddol a bylchau o ran llywodraethu ar ôl Brexit:

- cynnwys amcan trosfwaol i sicrhau lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd y mae'r egwyddorion amgylcheddol wedi'u fframio oddi mewn iddo;
- rhestru pob un o'r pedair egwyddor amgylcheddol graidd ar wyneb y Bil; a
- rhestru "peidio â chaniatáu dirywiad" neu "ddilyniant" fel egwyddor ar wyneb y Bil. Tudalen 25

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru asesu manteision cynnwys egwyddorion yr UE ac egwyddorion rhyngwladol, heblaw am y pedair egwyddor graidd, o fewn Bil ar gyfer Cymru yn y dyfodol, ac adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor hwn ar ei chanfyddiadau..... Tudalen 25

Argymhelliad 3. Wrth bennu i ba raddau y dylai'r ddyletswydd i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol yn y dyfodol fod yn berthnasol, dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio, fel man cychwyn, y cyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Tudalen 25

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd cyrff heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru'n ymlynu wrth yr egwyddorion amgylcheddol yn y dyfodol..... Tudalen 25

Argymhelliad 5. Dylai Bil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnwys darpariaeth ar gyfer diwygio'r rhestr o egwyddorion, a chyrrff cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt, at ddibenion ychwanegu at y rhestrau hynny, neu dynnu enwau oddi arnynt. Dylai diwygiadau i'r rhestrau hyn fod yn destun lefel briodol o graffu gan y Cynulliad..... Tudalen 25

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru, cyn pen tair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, roi manylion pellach i'r Pwyllgor am ei chytundeb â Llywodraeth y DU i fod â set gyffredin o egwyddorion amgylcheddol a rennir. Wrth wneud hynny, dylai:

- egluro ffurf y cytundeb â Llywodraeth y DU a sut y bydd yn cael ei gyflawni'n ymarferol;
- egluro beth fydd y set o egwyddorion amgylcheddol;

- nodi'r rhesymeg ar gyfer pob un o'r egwyddorion hynny; a
- nodi sut y bydd yr egwyddorion domestig cyfredol yn cael eu cynnal o fewn yr egwyddorion a rennir. Tudalen 25

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ar sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol sy'n gweithredu ledled y DU, a hynny ar frys. Wrth wneud hynny, dylai ddarparu manylion, y tu hwnt i'r rhai a ddarparwyd eisoes, yr hyn a fyddai yn ei thyb hi yn gyfystyr â chorff ledled y DU sy'n diwallu anghenion Cymru.....Tudalen 40

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar ei thrafodaeth ddiweddaraf gyda Llywodraethau y DU a Llywodraeth yr Alban am gynigion ar gyfer dull ledled y DU o lenwi'r bylchau o ran llywodraethu. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys manylion unrhyw drafodaeth gyda'i gweinyddiaethau cyfatebol ar ddatblygu corff llywodraethu amgylcheddol sy'n gweithredu ledled y DU, a chanlyniad hyn..... Tudalen 41

Argymhelliad 9. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod rôl ac amcanion y corff llywodraethu amgylcheddol newydd wedi'u diffinio'n glir o fewn Bil ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Rhaid nodi'n glir ble y mae'r ffiniau rhwng rôl a swyddogaethau'r corff newydd a rolau a swyddogaethau cyrff presennol yng Nghymru. Lle y ceir gorgyffwrdd, neu orgyffwrdd posibl, rhaid sefydlu mecanweithiau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol addas i reoli'r rhain.
..... Tudalen 41

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu i unrhyw gorff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru weithio gyda'r OEP arfaethedig ac unrhyw gorff cyfatebol yn yr Alban i sicrhau dull cydgysylltiedig o ddiogelu'r amgylchedd ledled y DU ar ôl Brexit. Tudalen 41

Argymhelliad 11. Rhaid i'r corff llywodraethu amgylcheddol newydd fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Rhaid iddo:

- gael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol a bod yn atebol iddo;
- cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru; a
- chael ei ariannu trwy Gronfa Gyfunol Cymru. Tudalen 42

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru wneud darpariaeth i sicrhau bod corff llywodraethu newydd Cymru yn rhoi trefniadau addas ar waith i ddarparu gwahaniad strwythurol clir a chryf rhwng ei swyddogaethau cynghori a rheoleiddio..... Tudalen 42

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dylai cwmpas y corff llywodraethu newydd ymestyn i bob corff cyhoeddus yng Nghymru y bydd yn ofynnol iddynt gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol (gweler Argymhelliad 3).
..... Tudalen 42

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu esboniad manwl o'r bylchau sy'n codi o ganlyniad i golli swyddogaeth monitro ac adrodd yr UE, a'i chynigion i fynd i'r afael â'r rhain, y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn ei hymgyngoriad.
..... Tudalen 43

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa ofynion monitro ac adrodd, y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yng nghyfraith bresennol Cymru, fydd ar waith ar ôl Brexit i gefnogi goruchwyllo a chraffu effeithiol ar weithredu deddfwriaeth amgylcheddol. Wrth wneud hynny, dylai egluro a yw gofynion adrodd yr UE wedi'u cadw mewn cyfraith ddomestig, a'u haddasu..... Tudalen 43

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â sut y mae'n bwriadu cyflawni ei rhwymedigaethau adrodd rhyngwladol ar faterion amgylcheddol yn dilyn gadael yr UE. Tudalen 43

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa rôl fydd gan y corff llywodraethu newydd o ran hwyluso'r broses o adrodd ar rwymedigaethau a chytundebau rhyngwladol ar faterion amgylcheddol. Tudalen 43

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu safbwynt clir a chryf y dylai'r DU barhau â'i haelodaeth o Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, ac asiantaethau eraill yr UE sydd ag arbenigedd amgylcheddol, lle mae gwerth amlwg. Dylai adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar ganlyniad trafodaeth gyda Llywodraeth y DU yn y dyfodol ar y mater hwn..... Tudalen 43

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynigion ar gyfer system ddirwyo i roi cymorth i orfodi cyfraith amgylcheddol yn effeithiol ar ôl Brexit. Dylai'r cynigion hyn gael eu goleuo gan adolygiad o enghreifftiau rhyngwladol o systemau dirwyo sy'n gweithredu mewn cyd-destun domestig, megis yn Seland Newydd. Dylid ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch y cynigion..... Tudalen 44

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai ac, os felly, sut y dylai dirwyo am ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol fod yn berthnasol i gyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru sydd o fewn cylch gwaith y corff llywodraethu newydd..... Tudalen 44

Argymhelliad 21. Rhaid i'r corff llywodraethu newydd allu derbyn cwynion o sylwedd gan ddinasyddion am dorri cyfraith amgylcheddol, neu achosion posibl o dorri cyfraith amgylcheddol. Tudalen 45

Argymhelliad 22. Rhaid i'r system gwynion newydd fod yn syml i ddinasyddion gael mynediad ati, yn rhad ac am ddim, a heb rwymedigaeth. Tudalen 45

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw waith rhagarweiniol a wnaed i asesu'r adnoddau sy'n gysylltiedig â sefydlu corff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru. Tudalen 45

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU am gyllid yn y dyfodol i dalu cost corff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru..... Tudalen 45

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru nodi llinell amser ar gyfer datblygu a gweithredu'r trefniadau pontio a ffefrir ganddi. Hefyd, dylai adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor, cyn pen tair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, ar waith y grŵp rhanddeiliaid sydd â gorchwyl i ystyried cynigion ar gyfer trefniadau pontio. Tudalen 48

Argymhelliad 26. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddi benderfynu ar y dull a ffefrir ganddi o ran trefniadau pontio, a chyn datblygu cynigion terfynol, dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys asesiad effaith cynhwysfawr o'r dulliau a ystyriwyd, gan gynnwys manylion y costau cysylltiedig, a'r rhesymeg dros y dull a ffefrir ganddi..... Tudalen 48

Rhagair y Cadeirydd

Llygredd aer, y dirywiad mewn bioamrywiaeth a'r newid yn yr hinsawdd yw heriau mwyaf ein hoes yn fy marn i.

Dros nifer o flynyddoedd, bu gan bolisïau'r UE, a luniwyd gan Aelod-wladwriaethau gan gynnwys y DU, rôl ganolog o ran mynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae'r polisïau hyn wedi helpu i sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn cael lle cadarn ar yr agenda wleidyddol; wedi codi safonau amgylcheddol; ac wedi bod yn sbardun ar gyfer gwelliannau i'r amgylchedd yr ydym yn byw ynnddo. Pan fydd y DU yn gadael yr UE, bydd angen dull newydd, un a all ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu. Sut y gellir cyflawni hynny yw testun yr Adroddiad hwn.

Ar hyn o bryd, mae'r UE yn datblygu polisïau a chyfreithiau amgylcheddol ac yn gweithredu fel corff gwarchod i sicrhau bod Aelod-wladwriaethau'n cydymffurfio â hwy. Gall yr UE weithredu yn erbyn llywodraethau sy'n methu â chydymffurfio, a all arwain at gosbau ariannol sylweddol yn y pen draw.

Pan fydd yn gadael yr UE, ni fydd y system hon o lywodraethu amgylcheddol yn berthnasol yn y DU mwyach. Gan bod yr amgylchedd yn faes cyfrifoldeb datganoledig, mater i Lywodraeth Cymru fydd penderfynu ar drefniadau llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Beth fydd lliw a llun y system newydd hon? A sut y bydd yn diwallu anghenion Cymru? Mae'r rhain yn gwestiynau cymhleth, ond hanfodol y mae angen eu hateb os ydym am adeiladu ar yr hyn sydd gennym eisoes.

Rydym wedi ceisio dylanwadu ar ddatblygiad y system newydd hon o adeg gynnar. Cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf ar y mater hwn ym mis Mehefin 2018, ac roedd yn gwneud nifer o argymhellion lefel uchel. Dros flwyddyn yn ddiweddarach, a chyda chynigion yn dod i'r amlwg gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, fe wnaethom fwrw golwg o'r newydd ar y materion. Mae hwn, ein hail adroddiad, yn nodi'n fanwl ein ffordd o feddwl ynglŷn â system lywodraethu ar ôl Brexit sy'n cyflawni safonau amgylcheddol uchel. Bydd yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru nid yn unig yn cyflawni ei hymrwymiad i beidio â chaniatáu dirywiad ond, yn bwysicaf oll, bod ganddi'r potensial i wella'r amgylchedd.

1. Cyflwyniad

1. Ar hyn o bryd, mae gan gyrff yr UE, fel y Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU), rôl bwysig o ran gweithredu a gorfodi cyfreithiau amgylcheddol sy'n deillio o'r UE ledled y DU. Trefnir y cyfreithiau hyn, a'r modd y cânt eu dehongli, gan Egwyddorion amgylcheddol yr UE, sydd wedi'u bwriadu i sicrhau safonau amgylcheddol uchel.
2. Ar ôl gadael yr UE, ni fydd y strwythurau llywodraethu a'r egwyddorion amgylcheddol hyn yn gymwys yn y DU mwyach. Mae pryder eang y bydd hyn yn creu "bwlch llywodraethu" ac, o bosibl, yn arwain at beidio â diogelu'r amgylchedd i'r un graddau.
3. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir bod amddiffyn a gwella adnoddau naturiol Cymru a chynnal safonau cyfredol ym maes diogelu'r amgylchedd ar ôl Brexit yn flaenoriaeth. Er ei bod yn cydnabod colli mecanweithiau llywodraethu'r UE, mae'n haeru bod ymadawiad y DU â'r UE yn rhoi cyfle i ddatblygu system, sydd nid yn unig yn cyflawni ei hymrwymiad i beidio â chaniatáu dirywiad, ond yn gwella'r amgylchedd dros y tymor hwy.¹
4. Ar hyn o bryd, gan bod yr egwyddorion amgylcheddol a'r strwythurau llywodraethu amgylcheddol yn rhai ar gyfer yr UE gyfan, ceir ymagwedd gyffredin ledled y DU. Efallai y ceir gwahaniaeth ar ôl Brexit wrth i wledydd y DU ddatblygu eu cynigion eu hunain.
5. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE*, Mawrth 2019, yn tynnu sylw at y gwahanol fylchau a manau cychwyn ledled y DU, ac yn cyfeirio at ddeddfwriaeth unigryw Cymru. Fodd bynnag, mae'n cydnabod mor bwysig ydyw bod pedair gweinyddiaeth y DU yn gweithio'n fwy cydweithredol ar ôl Brexit. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi adrodd ei bod wedi cytuno â Llywodraeth y DU i fod â set gyffredin o egwyddorion amgylcheddol, er nad oes unrhyw fanylion pellach ar gael. Mae yna gwestiwn o hyd a fydd cenhedloedd y DU yn dod at ei gilydd i sefydlu corff llywodraethu ar y cyd.

Ein hadroddiad cyntaf.

6. Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor) ei adroddiad, *Trefniadau*

¹ Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, *Egwyddorion a Threfniadau Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE. Mawrth 2019*

Llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit (ein hadroddiad cyntaf). Yn yr adroddiad hwnnw fe archwiliom ni nifer o faterion, gan gynnwys sut orau i gadw egwyddorion amgylcheddol yr UE ar ôl Brexit, ac a oes angen corff llywodraethu amgylcheddol olynol i ddisodli'r swyddogaethau llywodraethu sy'n cael eu cyflawni ar lefel yr UE ar hyn o bryd.

7. Fe wnaethon ni alw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- cyflwyno deddfwriaeth i ymgorffori egwyddorion amgylcheddol y UE yn y gyfraith;
- egluro ei safbwynt ar sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd ar ôl Brexit; ac
- egluro trefniadau trosiannol posibl ar gyfer llywodraethu amgylcheddol pe na bai corff llywodraethu newydd yn cael ei sefydlu cyn i'r DU adael yr UE.

8. Fe ymatebodd Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad cyntaf ym mis Awst 2018. Esboniodd y byddai'n cynnal dadansoddiad llawn o'r bylchau llywodraethu yng Nghymru, er mwyn goleuo ei dull gweithredu ar ôl Brexit. Ymrwymodd i ymgynghori ar gynigion i fynd i'r afael â'r bylchau cyn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol.

9. Ers ein hadroddiad cyntaf, bu nifer o ddatblygiadau allweddol, gyda chynigion yn dod i'r amlwg gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Yng ngoleuni'r rhain, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad pellach yn y maes polisi hwn.

Cylch gorchwyl

10. Fe wnaeth ymchwiliad y Pwyllgor ystyried:

- Bylchau mewn strwythurau ac egwyddorion llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit yng Nghymru ac a yw dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn nodi'r diffygion yn gywir ac yn gynhwysfawr;
- Cynigion a chwestiynau ymgynghori llywodraeth Cymru ynghylch yr egwyddorion amgylcheddol, a swyddogaeth/cyfansoddiad/cwmpas y corff llywodraethu arfaethedig; a
- Gwerth ac ymarferoldeb dull ar y cyd ar lefel y DU o ystyried cynnig Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU

(DEFRA) y gallai strwythurau llywodraethu newydd yn Lloegr arfer swyddogaethau yn ehangach ledled y DU.

Y dull gweithredu

11. Cynhaliwyd cyfarfodydd gennym ar 12, 20 a 26 Mehefin i gael tystiolaeth lafar gan amrywiaeth o dystion. Mae manylion y rhain i'w cael ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r broses hon.

12. Ysgrifennom at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Cwledig (y Gweinidog) ar 19 Gorffennaf i dynnu sylw at faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy ar frys yn ein tyb ni. Defnyddiwyd ymateb y Gweinidog i oleuo ein casgliadau a'n hargymhellion yn yr adroddiad hwn.

2. Datblygiadau allweddol ers ein hadroddiad cyntaf

2. 1. Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) drafft Llywodraeth y DU

13. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) drafft (Bil drafft y DU), yn unol â'r gofyniad yn adran 16 (Cynnal egwyddorion amgylcheddol ac ati) Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Deddf Ymadael â'r UE).²

14. Mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi datganiad polisi sy'n egluro sut y dylid dehongli a chymhwyso'r "egwyddorion amgylcheddol" a nodir yn y Bil wrth lunio, datblygu a diwygio polisïau. Rhaid i Weinidogion y Goron "roi sylw i'r" datganiad polisi wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau y mae'r datganiad yn ymdrin â hwy.

15. Mae'r "egwyddorion amgylcheddol" yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, bedair egwyddor graidd yr UE, a datblygu cynaliadwy.

16. Mae'r Bil drafft hefyd yn cynnig y dylid sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd ar ôl Brexit, a elwir yn Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP). Cyhoeddodd Defra y bydd yr OEP yn gorff amgylcheddol statudol, annibynnol a fydd yn dwyn y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus i gyfrif ar safonau amgylcheddol, gan gynnwys cymryd camau cyfreithiol i'w gorfodi i roi cyfraith amgylcheddol ar waith lle y bo angen.

17. Mae'r darpariaethau yn y Bil drafft yn berthnasol i Loegr a Gogledd Iwerddon yn bennaf. Fodd bynnag, maent hefyd yn berthnasol i'r cenhedloedd datganoledig eraill mewn perthynas â "materion a gedwir yn ôl". Wrth gyhoeddi'r Bil drafft, fe wnaeth Llywodraeth y DU wahodd y gweinyddiaethau datganoledig i gydweithio gyda hi i estyn y darpariaethau yn ehangach.

18. Wrth wneud sylwadau ar y Bil drafft, nododd y Gweinidog fod y model arfaethedig ar gyfer Lloegr yn ddull nad yw'n ymarferol i Gymru ("not a workable approach for Wales") ac nad yw'n gydnaws â'r setliad datganoli na'n deddfwriaeth

² Mae Adran 16 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn gosod gofyniad bod yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn pen chwe mis ar ôl pasio'r Ddeddf, yn cyhoeddi Bil drafft sy'n cynnwys (ymhlith pethau eraill) set o egwyddorion amgylcheddol a darpariaeth ar gyfer y sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol.

bresennol (“not compatible with the devolution settlement or our existing legislation”). Fodd bynnag, ailadroddodd ei pharodrwydd i weithio ar y cyd ar ddulliau gweithredu posibl ledled y DU a dywedodd y byddai'n parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU (“continue to proactively engage with the UK Government”).³

2. 2. Cynigion ymgynghori Llywodraeth Cymru

19. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngoriad hir-ddisgwyliedig, *Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE*. Mae'r ymgynghoriad yn ystyried goblygiadau gadael yr UE pan na fydd egwyddorion a strwythurau llywodraethu amgylcheddol yr UE yn berthnasol yn y DU mwyach. Mae'n cynnwys dadansoddiad o'r bylchau mewn egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol fel y maent yn berthnasol yng Nghymru, ac yn ceisio barn ynglŷn â dull o fynd i'r afael â hwy. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y rhain ym mhenodau dilynol yr adroddiad hwn.

20. Mae Llywodraeth Cymru yn haeru bod deddfwriaeth unigryw yng Nghymru, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ('Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (Deddf yr Amgylchedd), yn rhoi Cymru mewn sefyllfa ffafriol lle mae bylchau ar ôl Brexit yn y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn egluro, felly, bod angen ymateb gwahanol i Gymru o'i gymharu â gwledydd eraill y DU. Er gwaethaf hyn, mae'n cydnabod y gallai mecanwaith llywodraethu ledled y DU fod yn briodol ac mae'n ailadrodd ei pharodrwydd i gydweithio ar sut y gellid cynllunio mecanwaith o'r fath.

2. 3. Datblygiadau diweddaraf Llywodraeth Cymru

21. Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd y Gweinidog fod grŵp gorchwyl rhanddeiliaid wedi'i sefydlu i helpu i ddatblygu manylion strwythur llywodraethu amgylcheddol Cymru ymhellach.

22. Ym mis Awst 2019, rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru “wedi cytuno â Llywodraeth y DU fod gennym set gyffredin o egwyddorion amgylcheddol ac mae gwaith ar gynigion yn mynd rhagddo sydd,

³ Llythyr oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor, dyddiedig 7 Chwefror 2019

Ile bo hynny'n briodol, yn galluogi dulliau llywodraethu cydweithredol".⁴ Ni ddarparwyd unrhyw fanylion pellach.

23. Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodedb o ymatebion i'w chynigion ymgynghori.

2. 4. Goblygiadau'r berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol

24. Mae'r Cytundeb Ymadael yn cynnwys ymrwymiad na fydd y DU yn caniatáu dirywiad o ran lefel diogelu'r amgylchedd ac yn nodi, wrth roi hyn ar waith, bod rhaid i'r DU adlewyrchu pedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE yn ei deddfwriaeth amgylcheddol ("reflect [the four EU core environmental principles] in [its] environmental legislation"). Ar ben hynny, mae'n rhwymo'r DU i weithredu system dryloyw ar gyfer monitro, adrodd, goruchwyllo a gorfodi ei rwymedigaethau mewn modd effeithiol...gan gorff neu gyrff sy'n annibynnol ac sydd ag adnoddau digonol ("a transparent system for the effective domestic monitoring, reporting, oversight and enforcement of its obligations...by an independent and adequately resourced body or bodies").⁵

25. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch telerau ymadawiad y DU â'r UE, ac ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Ni waeth beth fo telerau'r ymadawiad, mae'n debygol y bydd peidio â chaniatáu dirywiad lle mae diogelu'r amgylchedd yn y cwestiwn yn un o'r rhagofynion ar gyfer unrhyw gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

⁴ Llythyr oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor, dyddiedig 21 Awst 2019

⁵ Cytundeb ar ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon â'r Undeb Ewropeaidd a Chymuned Ynni Atomig Ewrop, a gymeradwywyd gan yr arweinwyr yng nghyfarfod arbennig y Cyngor Ewropeaidd ar 25 Tachwedd 2018

3. Egwyddorion amgylcheddol

3.1. Ymgorffori egwyddorion yr UE

26. O dan Erthygl 191 o'r Cytundeb ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU), dylai polisi'r Undeb ar yr amgylchedd amcanu at lefel uchel o ddiogelu gan ystyried amrywiaeth sefyllfaoedd mewn amryw ranbarthau yn yr Undeb ("shall aim at a high level of protection taking into account the diversity of situations in the various regions of the Union"). Mae'n mynd ymlaen i restru egwyddorion yr UE y mae'n rhaid seilio deddfwriaeth a pholisïau arnynt:

- Yr egwyddor atal;
- Yr egwyddor y dylai difrod amgylcheddol, fel blaenoriaeth, gael ei gywiro yn y tarddle;
- Egwyddor "y llygrwr sy'n talu"; a hefyd
- Yr egwyddor ragofalus.

27. Mae'r egwyddorion hyn yn llifo drwy ddeddfwriaeth amgylcheddol yr UE gan bod y cyfreithiau cael eu datblygu o fewn cyd-destun yr egwyddorion. Mae'r ddeddfwriaeth hon ar lefel yr UE wedi cael ei throsi'n gyfraith ddomestig drwy Ddeddf yr UE (Ymadael). Fodd bynnag, ni fydd yr erthyglau perthnasol yn y Cytundeb ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn berthnasol mwyach pan fydd y DU yn gadael yr UE.

28. Un o'r cwestiynau allweddol i Lywodraeth Cymru (a gweinyddiaethau eraill y DU) yw sut y dylid ymgorffori egwyddorion yr UE mewn cyfraith ddomestig ar ôl Brexit.

Cynigion Llywodraeth Cymru

29. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae dwy o bedair egwyddor yr UE, "rhagofalus" ac "atal", eisoes wedi'u cynnwys o fewn cyfraith ddomestig; yr egwyddor "datblygu cynaliadwy" a'r "pum ffordd o weithio" yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r egwyddor "rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy" (SMNR) yn Neddf yr Amgylchedd.

30. Mae'n cynnig cynnwys gweddill egwyddorion yr UE, "y llygrwr sy'n talu" a "chywiro yn y tarddle", o fewn deddfwriaeth sylfaenol Cymru.

31. Mae Llywodraeth Cymru yn esbonio y bydd ymgorffori'r egwyddorion "cywiro yn y tarddle" a'r "llygrwr sy'n talu" yn y fframwaith deddfwriaethol presennol yng Nghymru yn mynd i'r afael â'r bylchau mewn perthynas â'r egwyddorion a gwmpesir. Fodd bynnag, byddai bwloch mewn perthynas â chwmpas cymhwysio egwyddorion "rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy".

32. Ar hyn o bryd, mae'r gofyniad yn Neddf yr Amgylchedd i gymhwyso egwyddorion "rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy" a mynd ar drywydd "rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy" yn berthnasol i swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac i Weinidogion Cymru o ran datblygu, llunio a gweithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol, ond nid yn fwy cyffredinol.

33. Felly mae Llywodraeth Cymru yn cynnig estyn y gofyniad i gymhwyso egwyddorion "rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy" a mynd ar drywydd "rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy" i gyrff cyhoeddus ychwanegol yng Nghymru sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

34. Amlygodd rhanddeiliaid wahaniaethau allweddol rhwng y ffordd y mae egwyddorion yr UE a'r egwyddorion domestig yn gweithredu ar hyn o bryd. Fe wnaethant bwysleisio mai "egwyddorion trosfwaol" oedd yr egwyddorion craidd, sy'n trefnu datblygiad yr holl gyfraith a pholisi, a'u bod yn cael eu defnyddio i ddehongli'r gyfraith. Roeddent yn dadlau nad yw'r egwyddorion domestig (yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd) yn gweithredu yn yr un modd. O ystyried hyn, nid oedd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid yn cefnogi haerriad Llywodraeth Cymru bod yr egwyddorion "rhagofalus" ac "atal" wedi'u cwmpasu'n ddigonol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

35. Meddai Greener UK:

"[The domestic principles] do not provide legal equivalence as the scope and effect of the Acts differ from how the principles function at the EU level. The current approaches in these Acts mean the principles would not apply to all policies, laws and activities."⁶

36. Mynnodd Gweithgor Cymru Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA WWP):

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig PG06, Greener UK

“...the principles contained in [the WBFG and Environment] Acts are included in support of a well-being agenda across government that can be clearly distinguished from the specific needs of environmental protection; and, in support of the operationalisation of Sustainable Management of Natural Resources (SMNR).”⁷

37. Cododd rhanddeiliaid bryder hefyd bod yr egwyddorion domestig yn wannach na’r “egwyddor ragofalus”. Er enghraifft, mae egwyddorion “rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy” yn cynnwys yr angen i ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas ag ansicrwydd (“take account of all relevant evidence and gather evidence in respect of uncertainties”). Mewn cyferbyniad, mae’r “egwyddor ragofalus” yn sicrhau na ddylai ansicrwydd gwyddonol fod yn rheswm dros osgoi gweithredu i osgoi niwed amgylcheddol.

38. Tynnodd RSPB Cymru⁸ a WWF Cymru⁹ sylw at y ffaith bod egwyddorion “rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy” yn cyfeirio at yr angen i atal difrod **sylweddol** i ecosystemau [pwyslais wedi’i ychwanegu] (“take action to prevent **significant** damage to ecosystems”), tra bod yr “egwyddor ragofalus” yn gofyn am weithredu mewn ymateb i effeithiau “a allai fod yn beryglus”.

39. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at y ffaith bod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd wedi’u llunio gan dybio y byddai’r egwyddorion craidd yn parhau i fod yn berthnasol i Gymru. Esboniodd CLA Cymru fod y Deddfau hyn wedi’u bwriadu i ategu a chydfodoli gydag egwyddorion cyffredinol ac amgylcheddol yr UE ac nid eu disodli (“to complement and co-exist with the EU general and environmental principles and not replace them”).¹⁰

40. Roedd cefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid i gynnwys pob un o’r pedair egwyddor graidd ar wyneb Bil yn y dyfodol i sicrhau eglurder a chysondeb o ran eu cymhwyso.

41. Pwysleisiodd y mwyafrif o’r rhanddeiliaid fod Erthygl 191 o’r Cytundeb ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn darparu amcan trosfwaol i sicrhau lefel uchel o ran diogelu’r amgylchedd (“a high level of [environmental] protection”). Mae hyn yn gosod y fframwaith ar gyfer dehongli’r egwyddorion craidd. Dadleuodd RSPB Cymru nad oedd “rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy” yn darparu cywerthedd nac yn cwmpasu’r amcan i ddiogelu’r amgylchedd ynddo’i

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig PG03, UKELA WWP

⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig PG08, RSPB Cymru

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig PG05, WWF Cymru

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig PG02, CLA Cymru

hun yn ddigonol (“adequately encompass the objective of protecting the environment in its own right”).¹¹ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan ClientEarth¹², Greener UK¹³ a WWF Cymru¹⁴.

42. Cafwyd cefnogaeth eang gan randdeiliaid i efelychu amcan trosfwaol yr UE mewn Bil yn y dyfodol i danategu’r egwyddorion ac ategu’r broses o’u cymhwyso. Honnodd CNC y byddai hyn yn hyrwyddo gwell canlyniadau amgylcheddol ac yn lleihau’r risg o ganiatáu dirywiad gyda safonau neu adael bylchau o ran cymhwyso (“promote better environmental outcomes and reduce the risk of regression in standards or gaps in application”).¹⁵

3. 2. Cymhwyso’r egwyddorion

43. Cafwyd cefnogaeth eang ymhlith rhanddeiliaid i gynnig Llywodraeth Cymru i estyn y gofyniad i gymhwyso egwyddorion “rheoli adnoddau dynol yn gynaliadwy” ac i fynd ar drywydd “rheoli adnoddau dynol yn gynaliadwy” i gyrff cyhoeddus sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Credai WWF Cymru y dylid ymestyn y gofyniad i bob corff cyhoeddus sy’n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys cyrff mewn meysydd a gedwir yn ôl sydd â swyddogaethau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Awgrymodd hefyd y dylid ystyried cynnwys cynghreiriau rhwng cyrff cyhoeddus/y sector preifat (er enghraifft, Bargeinion Dinesig).¹⁶

44. Roedd UKELA WWP yn gefnogol i estyn gofynion “rheoli adnoddau dynol yn gynaliadwy” i bob corff cyhoeddus yng Nghymru i’r graddau eu bod yn berthnasol i gyflawni eu swyddogaethau (“so far as they are relevant to the discharge of their functions”). Effaith hyn fyddai sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu hystyried yng ngwaith y cyrff hyn lle bynnag y bo’n berthnasol heb greu dyletswydd iddynt fynd ar drywydd y rhain yn unig (“ensure that these principles are considered in the work of these bodies wherever relevant without creating a duty for them to pursue them exclusively”).¹⁷

45. Er gwaethaf eu cefnogaeth i estyn y gofyniad i gymhwyso egwyddorion “rheoli adnoddau dynol yn gynaliadwy”, ailadroddodd rhanddeiliaid na fyddai hyn yn ddigonol i ddarparu cywerthedd ar ôl Brexit. Galwodd y mwyafrif o randdeiliaid

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig PG08, RSPB Cymru

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig PG09, ClientEarth

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig PG09, ClientEarth

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig PG05, WWF Cymru

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig PG10, CNC

¹⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG05, WWF Cymru

¹⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG03, UKELA WWP

am ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gymhwyso'r pedair egwyddor graidd yn eu cyfanrwydd. Dywedodd RSPB wrth y Pwyllgor fod cynnig Llywodraeth Cymru yn dangos ymrwymiad i gymhwyso dyletswydd gref mewn perthynas â'r egwyddorion ("shows commitment to applying a strong duty [in respect of] the principles"), rhywbeth yr oedd yn ei groesawu. Fodd bynnag, galwodd am "ddyletswydd gyhoeddus newydd", a fyddai'n cwmpasu'r ddyletswydd "rheoli adnoddau dynol yn gynaliadwy" ac yn cynnwys dyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion craidd i sicrhau lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd ("a duty to apply the core principles to secure a high level of environmental protection"). Dylai hyn fod yn berthnasol i bob corff cyhoeddus, fel y'u diffinnir o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd.¹⁸

3. 3. Egwyddorion eraill

46. Nododd rhanddeiliaid nifer o egwyddorion ychwanegol y credent y dylid eu cynnwys yng nghyfraith Cymru, gyda galwadau am ddull mwy uchelgeisiol nag ail-greu egwyddorion craidd yr UE. Er enghraifft, awgrymodd CLA Cymru fod dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â bylchau yn gyfle wedi'i golli a bod canolbwyntio ar yr egwyddorion craidd yn gyfyngedig ac yn rhy statig. Roedd yn nodi fel a ganlyn:

"Whilst [the core principles] form the backbone of the interpretation and delivery of environmental standards and law in the EU, there have been a number of supplementary additions to these principles over decades as awareness and understanding of environmental impact has grown. The concentration on core principles in the Welsh Government consultation, excludes consideration of subsequent developments, for example, the Cardiff process on integration and the importance of the Aarhus Convention, which are actually essential to understand and interpret some of the decisions and development in EU thinking. This is a concern and needs to be reviewed."¹⁹

47. Galwodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys WWF Cymru²⁰, Greener UK²¹, ClientEarth²² ac RSPB Cymru²³ ar Lywodraeth Cymru i ystyried cynnwys egwyddor "peidio â chaniatáu dirywiad" yng nghyfraith Cymru. Roeddent yn mynnu nad

¹⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG08, RSPB Cymru

¹⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG02, CLA Cymru

²⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG05, WWF Cymru

²¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG06, Greener UK

²² Tystiolaeth Ysgrifenedig PG09, ClientEarth

²³ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG08, RSPB Cymru

oedd yr egwyddor hon wedi'i chwmpasu'n ddigonol yn y fframwaith "rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy" o ystyried ei gwmpas cyfyngedig ("limited scope"). Galwodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd²⁴, ar y Llywodraeth i ymrwmo i fynd ymhellach na pheidio â chaniatáu dirywiad a chynnwys egwyddor "dilyniant", sy'n agwedd ar y Cytundeb ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

48. Fe wnaeth y mwyafrif o'r rhanddeiliaid nodi "integreiddio" fel egwyddor allweddol. Yn ôl yr Athro Richard Cowell (Prifysgol Caerdydd), Dr Ludivine Petetin (Prifysgol Caerdydd) a Dr Mary Dobbs (Prifysgol y Frenhines, Belfast) (Cowell et al) roedd "integreiddio" yn hanfodol i system gyfannol ac effeithiol o lywodraethu amgylcheddol ("essential to a holistic and effective system of environmental governance"). Dylai, felly, ddod yn un o gonglfeini canolog deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol ("become a central pillar of future Welsh legislation")²⁵. Adleisiodd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys RSPB Cymru²⁶ a ClientEarth²⁷ hyn. Nid oeddent o'r farn bod "integreiddio" o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyfateb i egwyddor yr UE.

49. Pwysleisiodd Cowell et al y byddai egwyddorion eraill sy'n mynd i'r afael â ffiniau, cydweithredu (gan gynnwys o fewn y DU) a dyrannu cyfrifoldebau ar draws tiriogaeth ("addressing borders, co-operation (including within the UK) and the allocation of responsibilities across territory") yn dod yn fwy arwyddocaol ar ôl Brexit. Er enghraifft, y rhwymedigaeth i osgoi difrod amgylcheddol trawsffiniol ("the obligation to avoid transboundary environmental damage"), sy'n egwyddor a gydnabyddir yn gyffredin mewn cyfraith amgylcheddol ryngwladol.²⁸ Adleisiodd sawl rhanddeiliad hyn.

50. Nododd CLA Cymru²⁹, NFU Cymru³⁰, CNC³¹ a WWF Cymru egwyddorion ehangach y Cytundeb ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd a chytundebau rhyngwladol, gan gynnwys "rhoi", "cymesured", "atebolrwydd", "tryloywder" a "sybsidiaredd", sy'n darparu'r cyd-destun y cafodd egwyddorion amgylcheddol yr UE eu datblygu ynddo. Fe wnaethant awgrymu bod angen ystyried y cyd-destun

²⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG12, Yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd

²⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG04, Cowell et al

²⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG08, RSPB Cymru

²⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG09, ClientEarth

²⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG04, Cowell et al

²⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG02, CLA Cymru

³⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG11, NFU Cymru

³¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig PG10, CNC

ehangach hwn ar ôl Brexit yng nghyfraith Cymru er mwyn rhoi ystyr i'r egwyddorion.

3. 4. Egwyddorion amgylcheddol ledled y DU

51. Galwodd sawl rhanddeiliad am set gyffredin o egwyddorion amgylcheddol cyffredin ar gyfer y DU ac amcan amgylcheddol trosfwaol ar gyfer y DU. Awgrymodd WWF Cymru y dylid diffinio egwyddorion ar lefel y DU gyfan mewn perthynas ag amcan trosfwaol ond gan roi hyblygrwydd i'r pedair gwlad gyflawni'r amcan, a chymhwyso'r egwyddorion, mewn ffordd sydd wedi'i haddasu'n bwrpasol i'w hanghenion.³²

Ein barn

Am dros ddeugain mlynedd, mae egwyddorion amgylcheddol yr UE wedi trefnu datblygiad cyfraith a pholisi amgylcheddol yr UE. Pan fydd yn gadael yr UE, ni fydd yr egwyddorion craidd hyn yn berthnasol yn y DU mwyach. Mae'r cwestiwn pa un a ddylid ac, os felly, sut y dylid, ymgorffori'r egwyddorion hyn mewn cyfraith ddomestig yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE wedi bod yn destun dadl barhaus.

Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom argymhell y dylid rhestru'r pedair egwyddor graidd yn benodol ar wyneb Bil ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ein hargymhelliad, er ei bod wedi ymrwymo i "llenwi unrhyw [fylchau ar ôl Brexit yng Nghymru] gyda golwg ar bedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE". Yn dilyn hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dadansoddiad o'r bylchau hynny, a oedd yn sail i'w chynigion ymgynghori.

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r bylchau a'i dull arfaethedig o'u llenwi trwy integreiddio'r egwyddorion craidd fel rhan o fframwaith deddfwriaethol presennol Cymru yn ganmoladwy ond yn gymhleth.

Nid ydym yn credu y bydd cynigion Llywodraeth Cymru yn darparu cywerthedd â'r egwyddorion "atal" a "rhagofalus". Nid yw'r egwyddorion domestig yn darparu'r un fframwaith trosfwaol ar gyfer gwneud penderfyniadau a datblygu polisi ag egwyddorion yr UE.

Er y bydd estyn y gofyniad i gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a deddfu ar gyfer y "llygrwr sy'n talu" a "chywiro yn y tarddle" yn

³² Tystiolaeth Ysgrifenedig PG05, WWF Cymru

mynd rywfaint o'r ffordd tuag at lenwi'r bylchau, nid ydym yn argyhoeddedig bod y dull hwn yn mynd yn ddigon pell. Yn wir, mae'r dystiolaeth a gawsom yn atgyfnerthu'r angen i bob un o'r pedair egwyddor graidd gael eu rhestru'n benodol ar wyneb Bil ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Ni welwn unrhyw reswm i hyn wrth-ddweud na thanseilio fframwaith deddfwriaethol presennol Cymru, o ystyried bod y fframwaith hwn a'r egwyddorion craidd eisoes yn bodoli ochr yn ochr â'i gilydd. Credwn y bydd rhestru'r egwyddorion craidd fel hyn yn rhoi sicrwydd ac eglurder i'r sector a dinasyddion Cymru. Bydd hyn hefyd yn dangos i bartneriaid byd-eang Cymru, yn syml ac yn glir, ei hymrwymiad parhaus i'r pedair egwyddor graidd ar ôl Brexit.

Credwn y dylai fod amcan trosfwaol i gyd-fynd â'r pedair egwyddor graidd, a hwnnw'n amcan i sicrhau "lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd", gan ddyblygu dull cyfredol yr UE i bob pwrpas.

Mae cynigion Llywodraeth Cymru yn dangos parodrwydd i ystyried deddfu i gynnwys egwyddorion eraill a allai fod o fudd i'r system lywodraethu newydd yng Nghymru. Mae hyn yn ein calonogi. Cawsom dystiolaeth am yr angen i gynnwys ystod o egwyddorion yr UE ac egwyddorion rhyngwladol o fewn Bil ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Credwn fod hyn yn haeddu ystyriaeth bellach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei hymrwymiad i beidio â chaniatáu dirywiad. Er ein bod yn croesawu hyn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru, fel isafswm, atgyfnerthu ei hymrwymiad trwy gynnwys "peidio â chaniatáu dirywiad" fel egwyddor graidd ychwanegol mewn Bil ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Credwn yn gryf y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys "dilyniant" fel egwyddor graidd, i ddangos ei huchelgais yn hyn o beth.

Rhaid bod digon o hyblygrwydd o fewn system lywodraethu newydd i'w gwneud yn bosibl gwneud newidiadau i adlewyrchu datblygiadau yng Nghymru a, lle bo hynny'n briodol, yn rhyngwladol yn y dyfodol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Bil ar gyfer Cymru yn y dyfodol yn darparu ar gyfer hyn.

Clywsom gan randdeiliaid am fanteision set gyffredin o egwyddorion amgylcheddol ar gyfer y DU. Er ein bod yn cael ein calonogi bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar ddull o'r fath, rydym yn siomedig na ddarparwyd unrhyw fanylion pellach mewn perthynas â hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn fel mater o frys.

Argymhelliad 1. Dylai Bil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r egwyddorion amgylcheddol a bylchau o ran llywodraethu ar ôl Brexit:

- cynnwys amcan trosfwaol i sicrhau lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd y mae'r egwyddorion amgylcheddol wedi'u fframio oddi mewn iddo;
- rhestru pob un o'r pedair egwyddor amgylcheddol graidd ar wyneb y Bil; a
- rhestru "peidio â chaniatáu dirywiad" neu "ddilyniant" fel egwyddor ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru asesu manteision cynnwys egwyddorion yr UE ac egwyddorion rhyngwladol, heblaw am y pedair egwyddor graidd, o fewn Bil ar gyfer Cymru yn y dyfodol, ac adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor hwn ar ei chanfyddiadau.

Argymhelliad 3. Wrth bennu i ba raddau y dylai'r ddyletswydd i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol yn y dyfodol fod yn berthnasol, dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio, fel man cychwyn, y cyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd cyrff heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru'n ymlynu wrth yr egwyddorion amgylcheddol yn y dyfodol.

Argymhelliad 5. Dylai Bil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnwys darpariaeth ar gyfer diwygio'r rhestr o egwyddorion, a chyrff cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt, at ddibenion ychwanegu at y rhestrau hynny, neu dynnu enwau oddi arnynt. Dylai diwygiadau i'r rhestrau hyn fod yn destun lefel briodol o graffu gan y Cynulliad.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru, cyn pen tair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, roi manylion pellach i'r Pwyllgor am ei chytundeb â Llywodraeth y DU i fod â set gyffredin o egwyddorion amgylcheddol a rennir. Wrth wneud hynny, dylai:

- egluro ffurf y cytundeb â Llywodraeth y DU a sut y bydd yn cael ei gyflawni'n ymarferol;
- egluro beth fydd y set o egwyddorion amgylcheddol;
- nodi'r rhesymeg ar gyfer pob un o'r egwyddorion hynny; a
- nodi sut y bydd yr egwyddorion domestig cyfredol yn cael eu cynnal o fewn yr egwyddorion a rennir.

4. Trefniadau llywodraethu amgylcheddol

52. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd, Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd a sefydliadau Ewropeaidd eraill rôl o ran sicrhau bod Aelod-wladwriaethau'n cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yr UE. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys monitro ac adrodd ar weithredu cyfraith amgylcheddol, derbyn cwynion dinasyddion, a chymryd camau gorfodi.

53. O ganlyniad i adael yr UE, ni fydd cyfraith a pholisi amgylcheddol, a ddeilliodd o'r UE, bellach yn cael eu goruchwyllo gan sefydliadau'r UE a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

Cynigion Llywodraeth Cymru

54. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ynglŷn â'r "ffordd fwyaf effeithiol a chydlynus o wella'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol" yn dilyn ymadawriad y DU â'r UE. Mae hyn yn cynnwys a ellid gwneud gwelliannau i'r strwythurau llywodraethu presennol yng Nghymru, ynteu a oes angen corff goruchwyllo penodol.

55. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai gadael yr UE arwain at dri bwlch posibl mewn trefniadau llywodraethu, sef colli:

- Atebolrwydd annibynnol;
- Mekanwaith syml a rhad i ddinasyddion gyfleu cwynion; a
- Mekanweithiau gorfodi.

56. Wrth ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r bylchau uchod, mae'n ceisio barn ynglŷn â rôl cyrff presennol mewn strwythur llywodraethu amgylcheddol newydd.

57. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig mai rôl unrhyw gorff newydd fyddai "rhoi goruchwyliaeth annibynnol o'r gyfraith sy'n ymwneud ag adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd sy'n gyson â deddfwriaeth sylfaenol Cymru". Mae'n ceisio barn ynglŷn â swyddogaethau corff newydd, yn benodol, swyddogaethau cynghori, craffu a gorfodi. Nid yw'n cynnig model llywodraethu penodol, ac nid yw'n ceisio barn yn benodol ynglŷn â dewisiadau ar gyfer corff sy'n gweithredu yng Nghymru neu gorff sy'n gweithredu ledled y DU.

4. 1. Corff sy'n gweithredu ledled y DU

58. Er bod rhanddeiliaid yn cytuno bod angen cydgysylltu ledled y DU, roedd gwahanol safbwyntiau wrth ystyried a ddylid sefydlu corff llywodraethu sy'n gweithredu ledled y DU.

59. Galwodd WWF Cymru³³, Greener UK³⁴ ac Undeb Amaethwyr Cymru³⁵ am gorff ledled y DU sy'n parchu datganoli a chyfraith bresennol Cymru, a gydberchnogir ac a ddyluniwyd ar y cyd gan wledydd y DU. Er bod RSPB Cymru yn cydnabod manteision posibl corff sy'n gweithredu ledled y DU, amlygodd y risg y gallai sylw'r corff fod yn canolbwyntio ar yr ardal lle ceir y mwyaf o adnoddau; yn fwyaf tebygol yn Lloegr ("most likely in England"). Amlygodd y gallai'r risg hon fod yn fwy arwyddocaol pe bai corff ar y cyd rhwng 2 neu 3 o wledydd y DU yn cael ei sefydlu yn hytrach na chorff sy'n gweithredu ledled y DU.³⁶

60. Cwestiynodd NFU Cymru ymarferoldeb datblygu trefniadau llywodraethu ar y cyd o ystyried bod cynigion llywodraethau priodol ar wahanol gamau, ac o ystyried yr amser sydd ar gael cyn y diwrnod ymadael.³⁷

61. O ran Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd arfaethedig Bil drafft y DU, cododd CLA Cymru bryder y byddai'n croesi drosodd ac yn gwrthdaro ("cross over and collide") â chynigion Llywodraeth Cymru ac y gallai ddod yn dir peryglus o safbwynt cyfreithiol ("legal minefield").³⁸

4. 2. Rôl cyrff atebolrwydd presennol yn y strwythur llywodraethu newydd

62. Er bod cyrff presennol fel Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (AGCC) yn goruchwyllo cyrff cyhoeddus Cymru, nid ydynt yn gyfrifol am graffu ar weithrediad priodol cyfraith amgylcheddol, ac nid yw eu swyddogaethau'n ymestyn i waith monitro neu orfodi parhaus ychwaith.

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig PG05, WWF Cymru

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig PG06, Greener UK

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig PG07, Undeb Amaethwyr Cymru

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig PG08, RSPB Cymru

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig PG11, NFU Cymru

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig PG02, CLA Cymru

Tystiolaeth gan randdeiliaid

63. Amlygodd Cowell et al yr heriau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth geisio mynd i'r afael â'r bylchau mewn trefniadau llywodraethu amgylcheddol er mwyn sicrhau integreiddio â strwythurau llywodraethu presennol Cymru. Meddent:

“the issue of how existing organisational roles fit within any new environmental governance structure raises dilemmas and raises complex questions with potentially far-reaching implications for [the existing Welsh governance structures].”³⁹

64. Roedd Cowell et al yn mynnu bod yr heriau hyn ar eu mwyaf mewn perthynas ag integreiddio â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru. Meddent wrth y Pwyllgor: “in the longer term, the small size of Wales might raise questions about having separate “watchdogs” for environmental protection and sustainable development”.⁴⁰

65. Roedd y dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid yn atgyfnerthu'r casgliad yn ein hadroddiad cyntaf, nad oes unrhyw gyrff yn y DU na Chymru, yn ôl eu cyfansoddiad ar hyn o bryd, a allai ymgymryd â swyddogaethau llywodraethu amgylcheddol yr UE, yn gyfan gwbl neu'n rhannol. At hynny, mynnodd rhai rhanddeiliaid y byddai gwella neu addasu'r strwythurau llywodraethu presennol i fynd i'r afael â'r bylchau ar ôl Brexit yn broblemus.

66. Dywedodd WWF Cymru wrth y Pwyllgor y byddai newid corff presennol i gyflawni'r swyddogaethau angenrheidiol “mor gymhleth â sefydlu un newydd ac yn creu perygl o newid/colli'r pwrpas sydd gan y corff presennol ar hyn o bryd (“would be as complex as establishing a new one and risks fundamentally changing/losing the purpose that existing body currently has”). Nododd hefyd nad oedd cyfansoddiad rhai cyrff presennol, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ddigon annibynnol ar y Llywodraeth.⁴¹

67. Adleisiodd Greener UK yr uchod ac fe rybuddiodd yn erbyn ôl-osod corff presennol (“retrofitting an existing body”). Meddai:

“[This] would not deliver as coherent and functionally effective a body as one specifically designed to meet clearly identified needs and

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig PG04, Cowell et al

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig PG04, Cowell et al

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig PG05, WWF Cymru

functions. It would also be unlikely to deliver either cost savings or a simpler solution.”⁴²

68. Roedd cefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid i sefydlu corff llywodraethu newydd, yn anad dim i sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth ar ôl Brexit, yn enwedig o fewn cyllidebau cyfyngedig, ac i ysgogi newid.

4. 3. Cwmpas y corff newydd

Cynigion Llywodraeth Cymru

69. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y gallai'r meysydd polisi a gwmpesir gan y corff gael eu harwain gan ymagwedd Deddf yr Amgylchedd a'r diffiniad o adnoddau naturiol. Byddai hyn yn golygu y byddai cwmpas corff, er enghraifft, yn cynnwys: dŵr, aer, cadwraeth natur, y newid yn yr hinsawdd, priddoedd, coedwigaeth, cemegion, plaladdwyr, gwastraff, yr economi gylchol a lle mae'r rhain yn croestorri â meysydd polisi eraill er enghraifft lle mae dŵr ac amaethyddiaeth yn croestorri.

70. Mae'n mynd ymlaen i ddweud, mewn meysydd lle mae corff sydd eisoes yn bodoli yn rhoi cyngor, er enghraifft Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd (UK CCC), y bydd angen i rolau gael eu disgrifio'n glir i sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd na dyblygu.

71. Cynigir y gallai cylch gwaith y corff newydd ymestyn i: Weinidogion Cymru, CNC, awdurdodau lleol, a Gweinidogion y Goron (yn gyson â'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Amgylchedd).

Tystiolaeth gan randdeiliaid

72. Amlygodd rhanddeiliaid yr angen i gwmpas y trefniadau llywodraethu newydd fod yn eang a chwmpasu'r holl feysydd polisi sy'n rhyngweithio â'r amgylchedd, yn unol â threfniadau cyfredol yr UE.

73. Mynnodd ClientEarth y dylai'r holl faterion amgylcheddol yn ogystal â materion sy'n cyffwrdd â'r amgylchedd fod o fewn ei gwmpas ("all environmental issues as well as issues which touch on the environment should be within the scope"). Roedd yn argymhell tynnu ar y diffiniad o "amgylchedd" yn Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae'r diffiniad hwn yn cwmpasu'r holl fesurau sy'n effeithio ar yr amgylchedd neu'n debygol o effeithio arno ("encompasses all

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig PG06, Greener UK

measures that affect or are likely to affect the environment”). Adleisiwyd hyn gan RSPB Cymru.⁴³

74. Awgrymodd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid y dylai'r cyrff sydd o fewn cylch gwaith y corff llywodraethu newydd adlewyrchu'r rhai y byddai'r egwyddorion a'r ddyletswydd sy'n cyd-fynd â hwy yn berthnasol iddynt.

75. Mynegodd NFU Cymru farn wahanol. Awgrymodd mai'r brif rôl y dylai'r corff newydd ei chyflawni yw dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol sy'n deillio o'r UE. Gan hynny, nid oedd o blaid estyn cylch gwaith y corff newydd i gyrrff cyhoeddus eraill. Roedd yn mynnu y byddai hyn yn tanseilio hawliau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru (“undermine the rights and responsibilities of Welsh Ministers”).⁴⁴

4. 4. Cyfansoddiad corff newydd

Cynigion Llywodraeth Cymru

76. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y “dylai corff goruchwyllo fod yn annibynnol ar y Llywodraeth”. Mae'n ceisio barn ynglŷn â sut orai i gyflawni hyn.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

77. Roedd cefnogaeth ysgubol ymhlith rhanddeiliaid i'r cynnig y dylai'r corff llywodraethu newydd fod yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth, ac y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn ei gyfansoddiad. Meddai UKELA WWP:

“To establish any body that is capable of bringing government departments and public bodies to account absolutely requires a body with a strong measure of independence from the executive...”⁴⁵

78. Galwodd rhanddeiliaid am roi rôl i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn penodiadau; am gyllido'r corff newydd yn uniongyrchol trwy Gronfa Gyfunol Cymru; ac am ei wneud yn atebol i'r Cynulliad.

79. Awgrymodd UKELA WWP⁴⁶ a William Wilson (Wyeside Consulting Limited)⁴⁷ y gellid defnyddio Comisiynydd yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yng Nghanada fel model addas ar gyfer annibyniaeth. Awgrymodd Greener UK fod

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig PG09, ClientEarth

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig PG11, NFU Cymru

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig PG03, UKELA WWP

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig PG03, UKELA WWP

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig PG07, William Wilson

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn Hwngari yn fodel cymeradwy ("commendable model").⁴⁸ Fodd bynnag, roeddent yn pwysleisio nad oedd yr un o'r Comisiynwyr hyn yn cyflawni swyddogaethau gorfodi.

80. Pwysleisiodd ACC yr angen am ffynonellau cyllid annibynnol er mwyn "osgoi cymhelliant croes" ac am gyllid digonol i alluogi'r corff newydd i arfer ei swyddogaethau. Cyfeiriodd at "heriau o ddiffyg capasiti a gallu" a wynebir gan CNC, a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.⁴⁹

81. Yn gysylltiedig â hyn, amlygodd rhai rhanddeiliaid y byddai annibyniaeth yn bwysig er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael digon o flaenoriaeth yn wyneb blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn y Llywodraeth a chyllidebau cyfyngedig.

4. 5. Osgoi swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd

Tystiolaeth gan rhanddeiliaid

82. Er bod cefnogaeth gref i sefydlu corff llywodraethu newydd, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i osgoi dyblygu neu orgyffwrdd rhwng swyddogaethau'r corff a swyddogaethau cyrff goruchwyllo ac atebolrwydd presennol.

83. Esboniodd ACC fod "swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd yn amlwg mewn perygl o achosi aneffeithlonrwydd" a bod "swyddogaethau sy'n cydgloi yn gallu arwain at ddryswch hefyd, dyblygu ac aneffeithlonrwydd".⁵⁰ Codwyd pwynt tebyg gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.⁵¹

84. Tynnodd CNC sylw at yr angen i rôl a swyddogaeth y corff newydd fod yn glir a, lle ceir gorgyffwrdd, egluro'n union sut mae'r rhain yn bodoli a sut y bwriedir ymdrin â'r rhain ("where there are overlaps, to clarify exactly how those exist and how those will be dealt with").⁵² Yn benodol, galwodd am eglurder pellach ynghylch swyddogaeth gynghori arfaethedig y corff newydd, a sut y byddai hyn yn cyd-fynd â rôl arwain CNC o ran "rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy", er

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, para 271, 20 Mehefin 2019

⁴⁹ Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor, dyddiedig 4 Mehefin 2019

⁵⁰ Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor, dyddiedig 4 Mehefin 2019

⁵¹ Llythyr oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor, dyddiedig 3 Mehefin 2019

⁵² Cofnod y Trafodion, para 30, 20 Mehefin 2019

enghraifft, wrth roi cyngor ac arweiniad ar egwyddorion “rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy” a’u cymhwyso.⁵³

85. Dywedodd yr Athro Robert Cowell wrth y Pwyllgor fod gorgyffwrdd mewn swyddogaethau yn ôl pob tebyg yn well na bwlch (“an overlap [in functions] is probably better than a gap”) ac y gellid defnyddio Memoranda Cyd-ddealltwriaeth i fynd i’r afael â hyn.⁵⁴

4. 6. Monitro ac adrodd

86. Ar hyn o bryd mae’r Comisiwn Ewropeaidd yn monitro gweithrediad cyfreithiau amgylcheddol trwy gyfeirio at setiau o ddangosyddion cenedlaethol ac adroddiadau gweithredu. Mae adroddiadau’r Comisiwn Ewropeaidd ar gynnydd yn darparu data gwyddonol a sail i ddwyn llywodraethau’r Aelod-wladwriaethau i gyfrif o ran gweithredu.

87. Yn dilyn Brexit, ni fydd yn ofynnol i Lywodraeth y DU gyflwyno adroddiadau gweithredu i’r Comisiwn Ewropeaidd mwyach. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol o hyd i’r DU adrodd o dan ystod o gytundebau rhyngwladol. Lle gwneir hyn trwy’r UE ar hyn o bryd, bydd angen i’r DU wneud hyn yn annibynnol. Ni fydd gan y DU fynediad at arbenigedd, systemau a data ehangach yr UE mwyach; na’r darvoudion maint sy’n deillio o gasglu gwybodaeth trwy Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop (EEA) ac Asiantaeth Cemegolion Ewrop (ECHA).

Cynigion Llywodraeth Cymru

88. Mae cynigion Llywodraeth Cymru yn nodi’r gofynion monitro ac adrodd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Mae’n awgrymu, wrth gyflawni ei swyddogaeth graffu, y dylai’r corff newydd allu defnyddio’r adroddiadau a gyhoeddir gan gyrff eraill, megis CNC, a chomisiynu neu ofyn am wybodaeth ychwanegol gan gyrff cyhoeddus eraill fel y bo’n briodol.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

89. Amlygodd rhanddeiliaid rôl Comisiwn yr UE o ran monitro gweithrediad cyfraith yr amgylchedd i sicrhau cydymffurfiaid. Yn ôl rhanddeiliaid, byddai monitro ac adrodd yn “swyddogaethau hanfodol” ar gyfer y corff newydd, y byddai eu hangen i roi cymorth iddo gyflawni ei rôl ehangach.

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig PG10, CNC

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, para 117, 12 Mehefin 2019

90. Mynnodd WWF Cymru:

“[The Welsh Government’s proposals] understate the strength of the EU system with regards to how it functions to extensively monitor and collect data. While we do have some national data collection and analysis it is not as expansive, nor does it proactively monitor compliance with objectives and regulations in the same manner.”⁵⁵

91. Mynegwyd barn debyg gan RSPB Cymru a awgrymodd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o fynd i'r afael â gweithgareddau monitro a chasglu data helaeth yr UE, gan gynnwys monitro cydymffurfriad ag amcanion a rheoliadau mewn modd rhagweithiol (“the extensive monitoring and data collection activities of the EU, including proactive monitoring of compliance with objectives and regulations”).⁵⁶

92. Awgrymodd Cowell et al fod angen eglurhad pellach o ran i ba raddau y byddai'r gofynion adrodd cyfredol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn llenwi'r gwactod posibl a adawyd gan rwymedigaethau'r UE (“would fill the potential vacuum left by EU obligations”).⁵⁷

93. Cododd ClientEarth bryder bod gofynion adrodd yr UE wedi'u colli yn y broses o drosi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig.⁵⁸ Awgrymodd Cowell et al y dylid disodli'r gofynion hyn â gofynion tebyg i adrodd wrth y corff newydd. Byddai hyn yn hwyluso ei allu i adrodd ac yn darparu'r wybodaeth i gynnal ymchwiliadau manylach i broblemau gweithredu penodol (“facilitate its reporting capacity and provide the information to conduct closer investigations of particular implementation problems”).⁵⁹

94. Wrth wneud sylwadau ar yr angen i'r DU fodloni gofynion adrodd rhyngwladol ar faterion amgylcheddol yn annibynnol ar ôl Brexit, nododd CNC:

“EU directives require monitoring and evidence-based reporting against environmental standards. Some of these are aggregated at EU level and provided to international obligation or direct to UN obligations...it's important that there's not a gap here, and that we recognise that there's a need for further clarity on how reporting and aggregating of environmental monitoring data for Wales and the UK against

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig PG05, WWF Cymru

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig PG08, RSPB Cymru

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig PG04, Cowell et al

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, para 235, 20 Mehefin 2019

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig PG04, Cowell et al

international and UN requirements is undertaken and delivered in the future.”⁶⁰

95. Cododd llawer o randdeiliaid bryder ynghylch colli arbenigedd technegol (“loss of technical expertise”) o ran casglu ac asesu data.

96. Dywedodd RSPB Cymru wrth y Pwyllgor fod Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop yn adnodd enfawr ar gyfer adrodd a chasglu gwybodaeth ac y byddai’n anodd iawn ailadrodd hynny y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd (“represents a massive resource for reporting and gathering information and it would be extremely difficult to replicate that outside of the European Union”).⁶¹

97. Adleisiodd Green Alliance hyn a nododd ei bod yn ymddangos yn annirnadwy na fyddem am barhau â’n haelodaeth [o Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop] (“it seems inconceivable that we wouldn’t want to retain membership [of the EEA]”).⁶² Cafwyd galwadau gan randdeiliaid bod Cymru a/neu’r DU, lle y bo’n bosibl, yn aros yn aelod o Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, ac asiantaethau perthnasol eraill, ar ôl Brexit. Fe wnaethant bwysleisio y byddai hyn yn ddefnydd effeithiol o adnoddau.

4. 7. Gorfodaeth

98. Gall y Comisiwn Ewropeaidd gymryd camau gorfodi sy’n cynnwys dwyn Aelod-wladwriaeth gerbron Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn achos torri un o gyfreithiau’r UE. Dim ond nifer fach o achosion sy’n cael eu clywed gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

99. Gall Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ofyn am rwymedi ac o bosibl roi dirwyon torri cyfraith yr UE os nad yw’r Aelod-wladwriaeth wedi cydymffurfio â’r dyfarniad cychwynnol. Un o nodweddion pwysig proses yr UE yw, yn wahanol i adolygiad barnwrol, nad yw’n gyfyngedig i ystyried y broses ddyladwy ond y gall hefyd ystyried a fu achos o dorri cyfraith yr UE.

Cynigion Llywodraeth Cymru

100. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ynglŷn â sut y gellir cymryd camau gorfodi effeithiol. Mae’n cynnig mecanweithiau anffurfiol a ffurfiol i geisio atebion i faterion diffyg cydymffurfio. Mae’r rhain yn cynnwys corff

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, para 41, 20 Mehefin 2019

⁶¹ Cofnod y Trafodion, para 89, 26 Mehefin 2019

⁶² Cofnod y Trafodion, para 236, 20 Mehefin 2019

goruchwyllo a'r Llywodraeth/corff cyhoeddus yn gweithio ar y cyd i geisio datrysiaid, a gweithdrefnau mwy ffurfiol tebyg i'r rhai a ddefnyddir yn system yr UE.

101. Nid yw cynigion Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhoi dirwyon am dorri cyfraith yn benodol. Mae'n nodi y dylai dulliau atal fod yn "ddilys ac yn effeithiol".

Tystiolaeth gan randdeiliaid

102. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at swyddogaeth orfodi gref yr UE, a galwasant am ailadrodd hyn ar ôl Brexit. Fe wnaethant adrodd am wendidau o fewn strwythurau gorfodi domestig a diffyg rhwymedi a sancsiwn am beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth.

103. Roedd cefnogaeth eang ymhlith rhanddeiliaid i fecanwaith gorfodi anffurfiol er mwyn ei gwneud yn bosibl datrys materion trwy gydweithrediad. Fodd bynnag, roeddent yn mynnu bod mecanwaith cadarn, ffurfiol, gan gynnwys achosion gorfodi, a sancsiynau credadwy am barhau i beidio â chydymffurfio, yn hanfodol.

104. Meddai ClientEarth:

"To ensure full and proper implementation of environmental law and policy it must also be able to take meaningful enforcement action where necessary. It should have access to a bespoke enforcement procedure and while the aim will be for most matters to be resolved via amicable means, legal teeth will be needed."⁶³

105. Roedd cefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid i fecanwaith ffurfiol i'w gwneud yn bosibl atgyfeirio achosion yr ymchwiliwyd iddynt gan y corff newydd at fforwm barnwrol priodol i'w hadolygu. Ailadroddwyd gwendid adolygiadau barnwrol gan ddadlau nad oedd hyn yn drefn briodol nac effeithiol yn lle'r gweithdrefnau torri cyfraith yr UE sydd ar gael i Lys Cyfiawnder yr UE. Galwodd nifer o randdeiliaid am sefydlu llys neu dribiwnlys amgylcheddol pwrpasol gydag arbenigwyr technegol o ystod o feysydd polisi amgylcheddol.

106. Mynnodd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid fod cosbau ariannol yn offeryn gorfodi hanfodol, a bod bygythiad dirwyon torri cyfraith yr UE yn allweddol i lwyddiant system yr UE. Roeddent yn dadlau'n gryf y dylai dirwyon am ddiffyg cydymffurfio parhaus fod yn rhan o'r system orfodi ddomestig newydd.

107. Esboniodd Cowell et al:

⁶³ Written evidence PG09, ClientEarth

“...there is much concern that the loss of the powers to fine governments for non-compliance with CJEU judgements represents the loss of a significant lever for driving enforcement. The power for courts to impose fines on the government and other public bodies should be seriously considered.”⁶⁴

108. Fe wnaethant awgrymu y gellid defnyddio refeniw o ddirwyon at ddibenion amgylcheddol, er enghraifft, i ariannu prosiectau a fyddai'n gwella trefniadau diogelu'r amgylchedd.⁶⁵

109. Mynnodd Greener UK fod bygythiad dirwyon yn golygu bod mecanweithiau anffurfiol yn fwy tebygol o arwain at ddatrysiad. Er ei fod yn cydnabod heriau ymarferol dyblygu system ddirwyo o fewn y cyd-destun domestig, roedd yn cwestiynu a fyddai unrhyw gamau gorfodi eraill yn ddull atal yr un mor effeithiol.⁶⁶

4. 8. Cwynion

110. Ar hyn o bryd mae cyfraith yr UE yn caniatáu i ddinasyddion hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth yr UE. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd ddisgresiwn i weithredu ar y wybodaeth a geir, a all arwain at achosion am dorri'r gyfraith gerbron Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd fel a drafodwyd uchod.

111. Yn dilyn Brexit, ni fydd dinasyddion y DU yn gallu defnyddio'r system cwynion dinasyddion a ddarperir gan yr UE mwyach.

112. Mae'r mecanweithiau presennol yng Nghymru yn canolbwyntio ar asesu pa un a ddilynwyd prosesau priodol a chyfreithiol yn hytrach na rhinweddau cwynion. Mae Llywodraeth Cymru yn amlygu yn ei hymgyngoriad nad oes ffocws amgylcheddol penodol o fewn y cyrff presennol a bod diffyg arbenigedd i asesu cwynion unigol.

Cynigion Llywodraeth Cymru

113. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn nodi “na ddylai fod unrhyw grebachu ar hawliau pobl o ganlyniad i adael yr UE”. Mae'n ceisio barn ar sut y gallai corff llywodraethu gael cwynion gan ddinasyddion a chymdeithas sifil heb wrthdaro â swyddogaethau cwynion cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'n

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig PG04, Cowell et al

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig PG04, Cowell et al

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, para 260, 20 Mehefin 2019

mynnu y dylai unrhyw system gwynion newydd fod yn syml ac yn rhad ac am ddim i ddinasyddion ei defnyddio.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

114. Roedd cefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid i'r cynnig bod y corff llywodraethu newydd yn ymgymryd â swyddogaeth gwynion fel ffordd o fynd i'r afael â'r bwloch sy'n deillio o golli system cwynion dinasyddion yr UE.

115. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd system yr UE, sy'n grymuso dinasyddion i gychwyn achos yn erbyn y Llywodraeth am beidio â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Meddai CLA Cymru:

“Many people would argue that one of the greatest strengths of the European environmental governance structure has been the ability for individuals and organisations to instigate action against national Governments. Being able to hold your Government to account so directly has undoubtedly had an impact on driving forward the environmental debate.”⁶⁷

116. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at gyfyngiadau mecanweithiau domestig presennol fel ffordd o gael mynediad at gyfiawnder ar faterion amgylcheddol. Roeddent yn mynnu bod y rhain yn ddulliau annigonol yn lle system cwynion dinasyddion yr UE. Galwodd rhanddeiliaid, gan gynnwys ClientEarth⁶⁸, Dr Ludivine Petetin⁶⁹ a WWF Cymru⁷⁰ am system newydd yng Nghymru i sicrhau na fyddai unrhyw grebachu ar hawliau dinasyddion y DU ar ôl Brexit.

117. Roedd consensws eang y dylai unrhyw fecanwaith cwynion newydd fod yn syml i'w ddefnyddio, heb gost a heb rwymedigaeth, yn unol â system yr UE. Amlygodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru⁷¹ a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol⁷² yr angen i osgoi dyblygu gyda systemau presennol a chreu dryswch i ddinasyddion.

118. Nid oedd NFU Cymru yn cefnogi'r cynnig bod y corff llywodraethu newydd yn cyflawni swyddogaeth gwynion. Roedd yn mynnu mai prif swyddogaeth y corff

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig PG02, CLA Cymru

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig PG09, ClientEarth

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, para 73, 12 Mehefin 2019

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig PG05, WWF Cymru

⁷¹ Llythyr oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor, dyddiedig 3 Mehefin 2019

⁷² Llythyr oddi wrth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, dyddiedig 7 Mehefin 2019

newydd yw goruchwyllo cyrff cyhoeddus yn hytrach nag ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd ("the primary function of [the new body is] the oversight of public bodies rather than the investigation of complaints from members of the public"). Cododd bryder ynghylch nifer y cwynion posibl, a allai rwystro gallu'r corff newydd i gyflawni ei swyddogaethau eraill.⁷³

119. Dadleuodd NFU Cymru fod dinasyddion eisoes yn gallu mynd ar drywydd cwynion trwy nifer o lwybrau, er enghraifft, codi cwynion gyda chynrychiolwyr etholedig, ombwdsmyrn perthnasol, neu drwy adolygiad barnwrol.⁷⁴

4. 9. Rôl gynghori

Cynigion Llywodraeth Cymru

120. Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod rôl bosibl i'r corff newydd weithredu fel corff cynghori i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chyflawni deddfwriaeth amgylcheddol.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

121. Cafwyd safbwyntiau cymysg gan randdeiliaid ar roi swyddogaeth gynghori i'r corff newydd. Cododd ychydig o randdeiliaid bryder ynghylch gwrthdaro buddiannau posibl wrth gyfuno swyddogaethau cynghori a rheoleiddio. Awgrymodd eraill y byddai cynghori ar faterion cydymffurfio yn swyddogaeth bwysig i'r corff newydd, gyda rhai yn cefnogi rôl gynghori ehangach.

122. Tynnodd ACC sylw at y ffaith bod Comisiwn yr UE yn "gosod strategaeth ac yn dehongli ei egwyddorion, ond nid yw yn gweithredu mewn swyddogaeth o roi cyngor i gyrff cyhoeddus". Erfyniodd am arfer pwyll wrth ystyried cyfuno swyddogaethau cynghori ac adolygu:

"Mae cael swyddogaeth benodol o gynghori yn bygwth tanseilio'r swyddogaethau rheoliadol. Mae cyfuno swyddogaethau cynghori gyda swyddogaethau adolygu mewn un corff yn tueddu i arwain at wrthdaro buddiannau yn ymddangosiadol, os nad yn wirioneddol, ac yn lleihau ymddiriedaeth yn y swyddogaethau adolygu."⁷⁵

123. Nid oedd NFU Cymru yn cefnogi'r syniad bod y corff newydd yn ymgymryd â swyddogaeth gynghori. Roedd yn honni bod tensiwn cynhenid os yw corff yn

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig PG11, NFU Cymru

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig PG11, NFU Cymru

⁷⁵ Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor, dyddiedig 4 Mehefin 2019

ysgwyddo cyfrifoldeb am roi cyngor ynghylch deddfwriaeth amgylcheddol a'i fod ar yr un pryd yn gorfodi ar unrhyw achosion o dorri deddfwriaeth amgylcheddol ("an inherent tension in a body having concurrent responsibility for the provision of advice around environmental legislation and the enforcement of any breaches of environmental legislation").⁷⁶

124. Nododd Greener UK fod cyrff presennol yn cyfuno'r swyddogaethau hyn yn llwyddiannus.⁷⁷ Cadarnhaodd CNC fod ei swyddogaethau [cyngori a rheoleiddio] wedi'u gwahanu'n strwythurol ("has structural separation of [its advisory and regulatory] functions").⁷⁸

Ein barn

Corff llywodraethu sy'n gweithredu ledled y DU

Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom nodi manteision corff llywodraethu amgylcheddol sy'n gweithredu ledled y DU. Fe alwom ni ar Lywodraeth Cymru i egluro a yw'n cefnogi sefydlu corff o'r fath. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn "rhy fuan eto dweud ai corff ar lefel y DU fyddai'n cynnig yr ateb mwyaf priodol ond rydym wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ynghylch beth yw'r potensial ar gyfer gweithio ar lefel y DU". Dros flwyddyn ers ein hadroddiad, nid yw wedi darparu unrhyw dystiolaeth o gynnydd o ran cytuno ar ffordd ymlaen gyda'r gweinyddiaethau eraill. Mae'n ymddangos nad yw Llywodraeth Cymru wedi diystyru corff llywodraethu sy'n gweithredu ledled y DU. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn aneglur ar ba delerau y byddai Llywodraeth Cymru yn barod i gefnogi sefydlu corff o'r fath, neu ai hwn fyddai'r opsiwn a ffefrir ganddi. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ar gorff sy'n gweithredu ledled y DU, a hynny ar frys.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu nad yw dull Llywodraeth y DU o sefydlu trefniadau llywodraethu addas, a nodir ym Mil drafft y DU, yn briodol nac yn dderbyniol i Gymru. Cytunwn yn gryf. Ailadroddwn yr argymhelliad a wnaed yn ein hadroddiad cyntaf, bod rhaid i unrhyw gorff sy'n gweithredu ledled y DU gael ei ddylunio ar y cyd; bod yn atebol i ddeddfwrfeydd, yn hytrach na llywodraethau; bod ag adnoddau priodol; a bod rhaid sefydlu mecanweithiau priodol ar gyfer datrys anghydfodau i gyd-fynd â'r corff hwnnw. Er mwyn i ddarpariaethau'r Bil drafft weithio i Gymru, byddai angen gwneud newidiadau

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig PG11, NFU Cymru

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, para 263, 20 Mehefin 2019

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, para 122, 20 Mehefin 2019

ar raddfa eang. Gydag ansicrwydd parhaus ynghylch amseriad cyflwyno Bil y DU, a chynigion Llywodraeth Cymru yn dal i fod yng nghamau cynnar eu datblygiad, mae'n dal i fod yn aneglur a yw corff sy'n gweithredu ledled y DU yn dal i fod yn opsiwn ymarferol.

Nodwn haerid Llywodraeth Cymru bod "nifer o ffyrdd o gyflawni dull ledled y DU [i lenwi bylchau o ran llywodraethu] na dim ond trwy ddatblygu corff sy'n gweithredu ledled y DU". Hoffem gael rhagor o fanylion gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygu unrhyw gynigion cysylltiedig.

Corff llywodraethu sy'n gweithredu yng Nghymru

Mae'n amlwg nad yw'r cyrff goruchwylio a llywodraethu presennol yng Nghymru yn gallu cyflawni swyddogaethau llywodraethu amgylcheddol cyfredol yr UE. Efallai y bydd yn bosibl gwneud gwelliannau i'r strwythurau llywodraethu presennol i lenwi rhai o'r bylchau sy'n codi o ran llywodraethu amgylcheddol yn dilyn Brexit. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu ailwampio rôl a swyddogaethau cyrff presennol. At hynny, ni fyddai lefel yr annibyniaeth sy'n ofynnol i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn effeithiol yn gallu cael ei chyflawni heb newidiadau i gyfansoddiad rhai cyrff. Nid ydym yn ystyried hyn yn briodol nac yn ddymunol.

Felly, mae achos cryf dros gorff llywodraethu newydd, pwrpasol i ddarparu system gadarn ac effeithiol o lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Brexit. Rhaid i rôl ac amcanion y corff newydd gael eu diffinio'n glir. Rhaid nodi'n glir ble y mae'r ffiniau rhwng rôl a swyddogaethau'r corff newydd a rolau a swyddogaethau cyrff presennol yng Nghymru.

Gallai cynigion Llywodraeth Cymru ddwyn goblygiadau sylweddol i gyrrff goruchwylio a llywodraethu presennol yng Nghymru. Byddem, felly, yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fod wedi ymgysylltu'n llawn â'r cyrff hynny wrth ddatblygu ei chynigion. Rydym yn siomedig nad yw'n ymddangos bod hyn wedi digwydd. Disgwyliwn lefel uchel o ymgysylltiad â'r cyrff hyn wrth ddatblygu cynigion manylach.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ar sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol sy'n gweithredu ledled y DU, a hynny ar frys. Wrth wneud hynny, dylai ddarparu manylion, y tu hwnt i'r rhai a ddarparwyd eisoes, yr hyn a fyddai yn ei thyb hi yn gyfystyr â chorff ledled y DU sy'n diwallu anghenion Cymru.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar ei thrafodaeth ddiweddaraf gyda Llywodraethau y DU a Llywodraeth yr Alban am gynigion ar gyfer dull ledled y DU o lenwi'r bylchau o ran llywodraethu. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys manylion unrhyw drafodaeth gyda'i gweinyddiaethau cyfatebol ar ddatblygu corff llywodraethu amgylcheddol sy'n gweithredu ledled y DU, a chanlyniad hyn.

Argymhelliad 9. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod rôl ac amcanion y corff llywodraethu amgylcheddol newydd wedi'u diffinio'n glir o fewn Bil ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Rhaid nodi'n glir ble y mae'r ffiniau rhwng rôl a swyddogaethau'r corff newydd a rolau a swyddogaethau cyrff presennol yng Nghymru. Lle y ceir gorgyffwrdd, neu orgyffwrdd posibl, rhaid sefydlu mecanweithiau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol addas i reoli'r rhain.

Cydweithredu a chydlynw â chyrrff cyfatebol yn y DU

Os na sefydlir corff sy'n gweithredu ledled y DU, bydd diogelu'r amgylchedd yng Nghymru yn cael ei lywodraethu gan ddau gorff ar wahân: yr OEP (Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd) arfaethedig a'r corff newydd a fydd yn cael ei sefydlu yng Nghymru. Cynigir y bydd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â "materion a gedwir yn ôl" yng Nghymru, tra bydd y corff o Gymru yn gweithredu mewn perthynas â materion datganoledig. Rydym yn pryderu am y dryswch posibl sy'n deillio o'r dull dwy haen hwn.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu i unrhyw gorff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru weithio gyda'r OEP arfaethedig ac unrhyw gorff cyfatebol yn yr Alban i sicrhau dull cydgysylltiedig o ddiogelu'r amgylchedd ledled y DU ar ôl Brexit.

Cyfansoddiad a swyddogaethau corff newydd sy'n gweithredu yng Nghymru

Rhaid i'r corff llywodraethu newydd fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau goruchwyllo a chraffu yn effeithiol, a sicrhau hyder y cyhoedd. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r corff fod â strwythur penodi annibynnol, bod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, cael ei archwilio'n annibynnol, a'i ariannu'n annibynnol ar y Llywodraeth.

Rydym yn cefnogi, mewn egwyddor, swyddogaethau arfaethedig y corff newydd. Fodd bynnag, credwn y dylid ystyried ymhellach a yw'n briodol i'r corff newydd roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu cynigion polisi a deddfwriaethol. Beth bynnag am hynny, rhaid rhoi trefniadau addas ar waith i

sicrhau gwahanu strwythurol clir a chryf rhwng swyddogaethau cynghori a rheoleiddio'r corff. Bydd hyn yn lleihau unrhyw wrthdaro buddiannau, neu wrthdaro buddiannau canfyddedig.

Argymhelliad 11. Rhaid i'r corff llywodraethu amgylcheddol newydd fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Rhaid iddo:

- gael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol a bod yn atebol iddo;
- cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru; a
- chael ei ariannu trwy Gronfa Gyfunol Cymru.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru wneud darpariaeth i sicrhau bod corff llywodraethu newydd Cymru yn rhoi trefniadau addas ar waith i ddarparu gwahaniad strwythurol clir a chryf rhwng ei swyddogaethau cynghori a rheoleiddio.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dylai cwmpas y corff llywodraethu newydd ymestyn i bob corff cyhoeddus yng Nghymru y bydd yn ofynnol iddynt gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol (gweler Argymhelliad 3).

Y swyddogaeth monitro ac adrodd

Er nad yw trefniadau monitro ac adrodd yr UE heb feirniadaeth, maent yn nodwedd allweddol ar system lywodraethu'r UE. Rydym yn pryderu bod cynigion Llywodraeth Cymru yn methu â chydabod maint llawn swyddogaeth monitro ac adrodd yr UE, a bod y bylchau sy'n deillio o golli'r swyddogaeth hon felly wedi'u tanddatgan.

Mae diffyg eglurder ynghylch pa un a yw gofynion presennol yr UE ar gyfer adrodd wrth Gomisiwn yr UE wedi'u cadw mewn cyfraith ddomestig, ac wedi'u haddasu'n briodol.

Mae'r gofynion monitro ac adrodd o dan gyfraith bresennol Cymru wedi'u bwriadu at ddiben gwahanol. Er bod y rhain yn ategu gofynion presennol yr UE, nid ydynt yn darparu trefn ddigonol yn eu lle. Oni bai bod gofynion adrodd cadarn, priodol yn cael eu rhoi ar waith ar ôl Brexit, gallai gyfyngu ar oruchwyliaeth a chraffu effeithiol ar weithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

Nid yw'n eglur pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith ar lefel y DU i hwyluso'r broses o adrodd ar rwymedigaethau a chytundebau rhyngwladol y DU

ar faterion amgylcheddol. Mae hefyd yn aneglur pa rôl fydd gan y corff newydd o fewn y trefniadau hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae manteision helaeth yn gysylltiedig ag aelodaeth y DU o Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop ac asiantaethau eraill yr UE sydd ag arbenigedd amgylcheddol. Rydym yn pryderu nad oes digon o allu ac arbenigedd yng Nghymru, nac yn wir ledled y DU, i ddarparu gwybodaeth ac arbenigedd technegol yn lle'r hyn a fydd yn cael ei golli pan ddaw aelodaeth y DU i ben. Bydd unrhyw berthynas yn y dyfodol ag Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop ac asiantaethau eraill yr UE yn bodoli trwy'r DU, fel cenedl-wladwriaeth. Mae'n bwysig, felly, bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu safbwynt clir a chryf ar aelodaeth barhaus y DU o Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, ac asiantaethau perthnasol eraill yr UE, ar ôl Brexit.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu esboniad manwl o'r bylchau sy'n codi o ganlyniad i golli swyddogaeth monitro ac adrodd yr UE, a'i chynigion i fynd i'r afael â'r rhain, y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn ei hymgyngoriad.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa ofynion monitro ac adrodd, y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yng nghyfraith bresennol Cymru, fydd ar waith ar ôl Brexit i gefnogi goruchwyllo a chraffu effeithiol ar weithredu deddfwriaeth amgylcheddol. Wrth wneud hynny, dylai egluro a yw gofynion adrodd yr UE wedi'u cadw mewn cyfraith ddomestig, a'u haddasu.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â sut y mae'n bwriadu cyflawni ei rhwymedigaethau adrodd rhyngwladol ar faterion amgylcheddol yn dilyn gadael yr UE.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa rôl fydd gan y corff llywodraethu newydd o ran hwyluso'r broses o adrodd ar rwymedigaethau a chytundebau rhyngwladol ar faterion amgylcheddol.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu safbwynt clir a chryf y dylai'r DU barhau â'i haelodaeth o Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, ac asiantaethau eraill yr UE sydd ag arbenigedd amgylcheddol, lle mae gwerth amlwg. Dylai adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar ganlyniad trafodaeth gyda Llywodraeth y DU yn y dyfodol ar y mater hwn.

Swyddogaeth orfodi

Rydym yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru y bydd y corff llywodraethu newydd yn gallu ceisio datrys materion diffyg cydymffurfio trwy weithdrefnau anffurfiol cyn dilyn gweithdrefnau ffurfiol a chamau gorfodi. Bydd yn allweddol i'r corff llywodraethu newydd fod ag ystod o offer gorfodi credadwy ar gael iddo er mwyn galluogi'r corff i gyflawni ei swyddogaethau cydymffurfio a gorfodi yn effeithiol.

Er bod cynigion Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at ddefnyddio'r dirwyon torri cyfraith yr UE o fewn system yr UE, nid ydynt yn crybwyll rôl bosibl cosbau ariannol yn y system lywodraethu newydd. Yng nghyd-destun yr UE, mae dirwyon yn offeryn gorfodi pwerus. Mae risg y gallai'r broses orfodi o fewn y system lywodraethu newydd fod yn aneffeithiol heb fygythiad dirwyon. Mewn egwyddor, felly, rydym yn cefnogi'r defnydd o ddirwyon fel offeryn gorfodi. Mae heriau amlwg yn gysylltiedig â gweithredu system ddirwyo a all osod cosbau ariannol ar y Llywodraeth, o fewn cyd-destun domestig. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o wledydd sydd wedi llwyddo i gyflawni hyn. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gallai system ddirwyo ar gyfer diffyg cydymffurfio parhaus â chyfraith amgylcheddol weithredu yng Nghymru.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynigion ar gyfer system ddirwyo i roi cymorth i orfodi cyfraith amgylcheddol yn effeithiol ar ôl Brexit. Dylai'r cynigion hyn gael eu goleuo gan adolygiad o enghreifftiau rhyngwladol o systemau dirwyo sy'n gweithredu mewn cyd-destun domestig, megis yn Seland Newydd. Dylid ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch y cynigion.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai ac, os felly, sut y dylai dirwyon am ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol fod yn berthnasol i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru sydd o fewn cylch gwaith y corff llywodraethu newydd.

Cwynion dinasyddion

Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom argymhell mai un o'r swyddogaethau allweddol y dylai unrhyw gorff llywodraethu newydd ei chyflawni yw rhoi mynediad i ddinasyddion a chymdeithas sifil at y system gwynion. Rydym wedi'n calonogi, felly, bod cynigion Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu hyn. Rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru y bydd unrhyw system gwynion newydd yn syml ac yn rhad ac am ddim i ddinasyddion ei defnyddio. Credwn y dylai'r system hefyd fod yn rhydd o rwymedigaeth hefyd, yn unol â system yr UE.

Yn hanfodol, mae system yr UE yn galluogi dinasyddion i wneud cwynion am dorri, neu achosion posibl o dorri, cyfraith amgylcheddol ar y ddau yn sylweddol. Nid yw'n eglur, a fydd y corff llywodraethu newydd yn gallu derbyn cwynion o sylwedd gan ddinasyddion. Er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni ei hymrwymiad i sicrhau na fydd unrhyw grebachu ar hawliau dinasyddion ar ôl Brexit, rhaid iddi wneud darpariaeth ar gyfer hyn.

Argymhelliad 21. Rhaid i'r corff llywodraethu newydd allu derbyn cwynion o sylwedd gan ddinasyddion am dorri cyfraith amgylcheddol, neu achosion posibl o dorri cyfraith amgylcheddol.

Argymhelliad 22. Rhaid i'r system gwynion newydd fod yn syml i ddinasyddion gael mynediad ati, yn rhad ac am ddim, a heb rwymedigaeth.

Goblygiadau ariannol sefydlu corff newydd

Mae sefydlu corff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru yn ymgymeriad sylweddol a bydd angen cryn dipyn o adnoddau ar ei gyfer. Yn ei hymateb i'n hadroddiad cyntaf, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn "rhy fuan" i gychwyn asesiad o'r adnoddau y mae eu hangen i sefydlu corff newydd. Rydym yn cydnabod bod cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer system lywodraethu newydd yng nghamau cynnar eu datblygiad ac nid yw wedi gwneud unrhyw benderfyniadau pendant eto. Fodd bynnag, byddem wedi disgwyl i Lywodraeth Cymru fod wedi cynnal asesiad rhagarweiniol o'r adnoddau y mae eu hangen cyn cyhoeddi ei chynigion. Nid yw'n ymddangos bod hyn wedi digwydd.

Disgwyliwn y bydd lefel briodol o gyllid ar gael at ddibenion sefydlu corff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru. Nid yw'n eglur beth fydd y trefniadau cyllido ar gyfer y corff newydd yn y dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru egluro hyn.

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw waith rhagarweiniol a wnaed i asesu'r adnoddau sy'n gysylltiedig â sefydlu corff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru.

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU am gyllid yn y dyfodol i dalu cost corff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru.

5. Trefniadau pontio

125. Ni waeth ar ba delerau y bydd y DU yn gadael yr UE, mae'n debygol y bydd angen trefniadau pontio er mwyn osgoi bylchau mewn egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol yn dilyn Brexit. Yn ôl Datganiad Deddfwriaethol Prif Weinidog Cymru, Gorffennaf 2019, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu yn y maes polisi hwn yn ystod blwyddyn nesaf y Cynulliad.

Cynigion Llywodraeth Cymru

126. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn nodi ei hymrwymiad i barhau i gymhwyso'r 5 ffordd o weithio, egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a 4 egwyddor graidd yr UE, "tra bo deddfwriaeth yn cael ei datblygu". Fodd bynnag, nid yw'n egluro a yw'n bwriadu mynd i'r afael â'r bylchau o ran llywodraethu, ac os felly, sut.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

127. Gofynasom i randdeiliaid am eu barn ynglŷn â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trefniadau pontio. Fe wnaethant adrodd am ddiffyg eglurder ynghylch y cynigion, yn enwedig ar gyfer llywodraethu amgylcheddol, a galwasant ar Lywodraeth Cymru i egluro ei bwriadau yn hyn o beth.

128. Nododd yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i gymhwyso egwyddorion presennol sydd wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth Cymru a'r pedair egwyddor amgylcheddol graidd. Fodd bynnag, roedd yn awgrymu diffyg eglurder ynglŷn â sut y mae [Llywodraeth Cymru] yn bwriadu gwneud hynny ("about how [the Welsh Government] proposes to do that"). Tynnodd yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd sylw nad yw Llywodraeth Cymru, yn wahanol i Lywodraeth y DU, wedi nodi cynigion eto ar gyfer trefniadau pontio o ran llywodraethu amgylcheddol.⁷⁹

129. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi cynigion i "gorff cysgodol" dderbyn cwynion am dorri cyfraith amgylcheddol nes bod Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, y swyddfa newydd arfaethedig, wedi'i sefydlu. Ni fyddai'r corff cysgodol yn cynnal ymchwiliadau. Prin yw'r manylion sydd ar gael am gwmpas y corff neu sut y byddai'n gweithredu'n ymarferol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddarparu ysgrifenyddiaeth dros dro i gefnogi gwaith y corff.

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, para 154, 26 Mehefin 2019

130. Er bod rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at wendidau yn y cynigion hyn, roedd peth cefnogaeth i sefydlu corff tebyg yng Nghymru i ddarparu llwybr clir ar gyfer cwynion wrth drosglwyddo i system lywodraethu newydd. Fodd bynnag, awgrymodd WWF Cymru y byddai mecanwaith a oedd yn gyfyngedig i dderbyn cwynion yn anfoddhaol dros gyfnod estynedig. Nododd fel a ganlyn:

“...if that’s the best we can do in the short term, okay, but actually not investigating complaints – for how long? How long is that transition before we get a new body? Realistically...you’re looking at having several years where there is no oversight.”⁸⁰

Ein barn

Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom dynnu sylw at y potensial i fylchau o ran llywodraethu godi pe na bai trefniadau llywodraethu newydd ar waith erbyn i'r DU adael yr UE. Gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r potensial i drefniadau pontio gael eu rhoi ar waith nes y gellid sefydlu corff llywodraethu addas. Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym y byddai'n ystyried yr angen am drefniadau pontio ac y byddai'n parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r bylchau yn y trefniadau llywodraethu nes y gellid cyflwyno deddfwriaeth.

Rydym yn pryderu, flwyddyn ers ein hadroddiad, na fu unrhyw gynnydd o ran cynigion ar gyfer trefniadau pontio. Nid yw adroddiadau gan Lywodraeth Cymru y bydd y grŵp tasg rhanddeiliaid a sefydlwyd yn ddiweddar yn trafod trefniadau pontio wedi gwneud dim i leddfu ein pryder. Y gwir amdani yw, yn niffyg trefniadau pontio addas, y bydd bylchau llywodraethu yn digwydd ar ôl i'r DU adael yr UE.

Mae Llywodraeth Cymru yn haeru y bydd trefniadau llywodraethu i'w cael yng Nghymru ar ôl i'r DU adael yr UE, o ystyried y bydd mecanweithiau llywodraethu domestig presennol yn parhau i weithredu. Nid ydym yn anghytuno â hyn. Erys y ffaith, fodd bynnag, nad yw mecanweithiau domestig yn drefniant priodol yn lle trefniadau llywodraethu cyfredol yr UE, hyd yn oed yn y tymor byr. Dangosir hyn yn glir yn y dadansoddiad o'r bylchau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei dogfen ymgynghori.

Nodwn sylw Llywodraeth Cymru ei bod wedi “dewis defnyddio dull pwylllog a chydweithredol o ran sut yr ydym yn llenwi'r bylchau hyn mewn ffordd sy'n mynd y tu hwnt i anghenion uniongyrchol”. Rydym yn pryderu nad yw

⁸⁰ Para 158, 26 Mehefin 2019

canolbwyntio ymdrechion fel hyn heb risg ac y gallent ddod ar draul diogelu'r amgylchedd yn y cyfnod yn syth ar ôl Brexit. Er mwyn lliniaru hyn, bydd angen trefniadau pontio addas.

O ystyried nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu i fynd i'r afael â'r bylchau mewn trefniadau llywodraethu yn ystod blwyddyn nesaf y Cynulliad, mae'n annhebygol y bydd strwythur llywodraethu amgylcheddol newydd ar waith am beth amser. Credwn nad yw hyn ond yn cryfhau'r achos dros drefniadau pontio cadarn.

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru nodi llinell amser ar gyfer datblygu a gweithredu'r trefniadau pontio a ffefrir ganddi. Hefyd, dylai adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor, cyn pen tair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, ar waith y grŵp rhanddeiliaid sydd â gorchwyl i ystyried cynigion ar gyfer trefniadau pontio.

Argymhelliad 26. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddi benderfynu ar y dull a ffefrir ganddi o ran trefniadau pontio, a chyn datblygu cynigion terfynol, dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys asesiad effaith cynhwysfawr o'r dulliau a ystyriwyd, gan gynnwys manylion y costau cysylltiedig, a'r rhesymeg dros y dull a ffefrir ganddi.

Atodiad: Tystiolaeth lafar

Darparodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael yn llawn yn:

[Trawsgrifiadau](#)

Dyddiad	Enw a Sefydliad
12 Mehefin 2019	Professor Richard Cowell, Prifysgol Caerdydd Dr Mary Dobbs, Queens University Belfast Dr Ludivine Petetin, Prifysgol Caerdydd Dr Victoria Jenkins, UK Environmental Law Association Wales Working Party
20 Mehefin 2019	Alan Hunt, Cyfoeth Naturiol Cymru Ruth Jenkins, Cyfoeth Naturiol Cymru Ruth Chambers, Green Alliance Dr Tom West, Client Earth Rebecca Williams, Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Huw Thomas, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru Charlotte Priddy, Undeb Amaethwyr Cymru
26 Mehefin 2019	Anne Meikle, World Wild Fund for Nature (WWF) Cymru Llinos Price, Coed Cadw Annie Smith, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru